*Status:* *This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 533 (Cy. 125)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Rhannu Swydd a Chynorthwywyr Gweithrediaeth) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *11 Mai 2022* |
| *Yn dod i rym - -* | *13 Mai 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 173 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021(**1**).

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad yn unol ag adran 174(4) a (5)(t) o'r Ddeddf honno.

## RHAN 1

### Cyffredinol

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Rhannu Swydd a Chynorthwywyr Gweithrediaeth) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 13 Mai 2022.

## RHAN 2

### Diwygio deddfwriaeth sylfaenol

**Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011**

**2.**—(1) Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(**1**) 2021 dsc 1.
(**2**) 2011 mccc 4; diwygiwyd adrannau 12 a 82 gan baragraff 6 o Atodlen 6 a pharagraff 4 o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

(2) Yn adran 12 (aelodaeth pwyllgor gwasanaethau democrataidd)—

(a) yn is-adran (2)(b), ar ôl "weithrediaeth yr awdurdod" mewnosoder "(ond gweler is-adran (6))";

(b) ar ôl is-adran (5) mewnosoder—

"(6) Os penodir dau neu ragor o aelodau awdurdod lleol i'r weithrediaeth i rannu swydd, caniateir penodi mwy nag un o'r aelodau hynny i bwyllgor gwasanaethau democrataidd yr awdurdod (ac os y'u penodir hwy felly, gyda'i gilydd maent yn cyfrif fel un aelod gweithrediaeth at ddibenion is-adran (2)(b))."

(3) Yn adran 14 (trafodion pwyllgor gwasanaethau democrataidd), ar ôl is-adran (4) mewnosoder—

"(4A) Os yw dau neu ragor o aelodau pwyllgor gwasanaethau democrataidd yn aelodau o'r weithrediaeth sy'n rhannu swydd, mae gan yr aelodau hynny un bleidlais rhyngddynt at ddibenion is-adran (4)."

(4) Yn adran 15 (pa mor aml y cynhelir cyfarfodydd pwyllgor gwasanaethau democrataidd), ar ôl is-adran (2) mewnosoder—

"(2A) Os yw dau neu ragor o aelodau pwyllgor gwasanaethau democrataidd yn aelodau o'r weithrediaeth sy'n rhannu swydd, nid yw'r aelodau hynny gyda'i gilydd ond yn cyfrif fel un aelod o'r pwyllgor at ddibenion is-adran (2)(b)."

(5) Yn adran 82 (aelodaeth pwyllgor llywodraethu ac archwilio)—

(a) yn is-adran (2)(c), ar ôl "weithrediaeth yr awdurdod" mewnosoder "(ond gweler is-adran (8))";

(b) ar ôl is-adran (7) mewnosoder—

"(8) Os yw dau neu ragor o aelodau awdurdod lleol wedi eu penodi i'r weithrediaeth i rannu swydd, caniateir penodi mwy nag un o'r aelodau hynny i bwyllgor llywodraethu ac archwilio yr awdurdod (ac os y'u penodir hwy felly, gyda'i gilydd maent yn cyfrif fel un aelod gweithrediaeth at ddibenion is-adran (2)(c))."

(6) Yn adran 83 (trafodion pwyllgor llywodraethu ac archwilio), ar ôl is-adran (3) mewnosoder—

"(3A) Os yw dau neu ragor o aelodau pwyllgor llywodraethu ac archwilio yn aelodau o'r weithrediaeth sy'n rhannu swydd, mae gan yr aelodau hynny un bleidlais rhyngddynt at ddibenion is-adran (3)."

(7) Yn adran 84 (pa mor aml y cynhelir cyfarfodydd pwyllgor llywodraethu ac archwilio), ar ôl is-adran (2) mewnosoder—

"(2A) Os yw dau neu ragor o aelodau pwyllgor llywodraethu ac archwilio yn aelodau o'r weithrediaeth sy'n rhannu swydd, nid yw'r aelodau hynny gyda'i gilydd ond yn cyfrif fel un aelod o'r pwyllgor at ddibenion is-adran (2)(b)."

# RHAN 3

## Diwygio is-ddeddfwriaeth

**Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2, yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder—

(**3**) O.S. 2001/2283 (Cy. 172); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2006/1849 (Cy. 192), 2016/85 (Cy. 39).